Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 22 Mehefin 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 28 MEHEFIN 2017** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 7 - 8)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 20)

Derbyn -

(a) cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2017 (copi wedi'i amgáu), a

(b) chofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2017 (copi wedi'i amgáu).

**7 ADOLYGU – DEDDF GAMBLO 2005 DATGANIAD O EGWYDDORION** (Tudalennau 21 - 64)

I ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn cyflwyno Datganiad o Egwyddorion drafft y Cyngor (Deddf Gamblo 2005), i'w ystyried a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghori.

**8 ADOLYGU'R POLISI SEFYDLIADAU RHYW** (Tudalennau 65 - 66)

I ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu), yn diweddaru aelodau ar adolygu'r Polisi Sefydliadau Rhyw.

**9 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD** (Tudalennau 67 - 68)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu), yn diweddaru aelodau o'r cynnydd mewn perthynas ag adolygiad o bolisi presennol masnachu ar y stryd yn Sir Ddinbych.

**10 RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU** (Tudalennau 69 - 72)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeedig) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w chymeradwyo.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf, yn cael ei datgelu.

**11 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 517116** (Tudalennau 73 - 88)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais gan Ymgeisydd Rhif 517116.

**12 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 518819** (Tudalennau 89 - 100)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu), yn gofyn i aelodau benderfynu ar adnewyddu cais gan Ymgeisydd Rhif 518819.

**13 GOLLYNGIAD O'R GOFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU TRWYDDED CERBYDAU HURIO PREIFAT (1)** (Tudalennau 101 - 118)

I ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu), yn gofyn am benderfyniad yr aelodau ynghylch cais am ollyngiad o'r gofyniad i arddangos platiau trwydded ar ddau gerbyd hurio preifat.

**14 GOLLYNGIAD O'R GOFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU TRWYDDED CERBYDAU HURIO PREIFAT (2)** (Tudalennau 119 - 130)

I ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi'n amgaeedig) yn gofyn am benderfyniad yr aelodau ynghylch cais am ollyngiad o'r gofyniad i arddangos platiau trwydded ar gerbyd hurio preifat.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield
Hugh Irving
Alan James
Brian Jones
Barry Mellor
Melvyn Mile
Arwel Roberts
Peter Scott
Rhys Thomas
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned